# Min y Traeth Gwanwyn 2016

**Bwletin i rieni Ysgol Eifionydd** www.ysgoleifionydd.org

Rhifyn : 3

*Gair gan y Pennaeth* 'Ymlaen' yw arwyddair yr ysgol ac fel Pennaeth Ysgol Eifionydd rwy'n edrych ymlaen i barhau i gydweithio yn agos gyda'r athrawon, staff cefnogol, rhieni a'r disgyblion. Mae'r ysgol eisoes yn un lwyddiannus, ond credaf gyda'n gilydd y gallwn ei datblygu ymhellach fel ysgol greadigol sy'n paratoi ein disgyblion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r Gymraeg yn agos at fy nghalon ac yn fy marn i mae ethos dwyieithog yr ysgol wedi arwain at ddatblygiad llawn o ddeallusrwydd ein plant yn ogystal â chefnogi diwylliant a thraddodiadau ein bro. Y nod fydd cynorthwyo ein disgyblion i gyrraedd y safonau uchaf posib mewn ysgol hapus, gynhwysol a gwaraidd. Hoffwn ddiolch i'r Llywodraethwyr am y fraint o gael parhau i arwain yr ysgol."

## Dyddiau Pwysig

- **Pasg - Mawrth 25 – Ebrill 8.**
- **Noson Opsiynnau Bl 9 - 15/03/16.**
- **Noson Rhieni Blwyddyn 7 – 22/03/16.**



**Traws Gwlad Meirion-Dwyfor**
Cynhaliwyd cystadlaethau trawsgwlad Meirion-Dwyfor yn Nolgellau yn ddiweddar. Llongyfarchiadau calonnog i bawb a gymrodd rhan.

**Canlyniadau Rhagorol ym Mathemateg.** Hoffwn fel Ysgol longyfarch blwyddyn 11 ar eu canlyniadau Mathemateg gwych gyda bron i 30% o'r flwyddyn yn ennill gradd A/A*. Pob lwc gyda gweddill yr arholiadau mis Mai.

**Diwrnod di-wisg ysgol**
Ar y diwrnod olaf cyn gwyliau Hanner Tymor cafodd y disgyblion gyfle i fynychu'r ysgol yn gwisgo eu dillad eu hunain, yn hytrach na'r wisg ysgol arferol. Braf oedd gweld y disgyblion yn lliwgar ac yn codi arian ar yr un pryd. Casglwyd £310.95 - Da iawn.

**Diwrnod Blasu**
Treuliodd criw o Flwyddyn 11 ddiwrnod yng Nghanolfan Glasdir, Llanrwst yn ddiweddar. Trefnwyd y diwrnod gan Brifysgol Caerdydd i godi ymwybyddiaeth am y cyrsiau iechyd maen nhw'n gynnig yno. Bu'n ddiwrnod buddiol dros ben a chafodd y disgyblion gyfle i ddysgu mwy am yrfaoedd posib megis nyrsio, radiograffi a bod yn fydwraig. Diolch i Mr. Roger Vaughan am drefnu'r daith ac am hebrwng y disgyblion yno.



**Ymweliad Lori Ni**
Unwaith eto eleni ymwelodd Lori Ni â'r Ysgol. Cafodd disgyblion Bl.9 gyfle i ymweld â'r lori mewn grwpiau bychain. Mae Lori Ni yn cynnig gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc am ystod eang o bynciau pwysig a pherthnasol.




**Eisteddfod yr Urdd** - Ddydd Sadwrn, Mawrth 5ed cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Llongyfarchiadau gwresog i'r rhai a gymerodd ran ac ar eu llwyddiant. Pob dymuniad da i'r cystyadleuwyr buddugol wrth iddynt gynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd yn Y Fflint yn ystod gwyliau'r Sulgwyn.

**Cyngor Ysgol** – Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn hynod brysur yn ddiweddar gan gyfarfod yn wythnosol. Penodwyd Ifan Price Bl.10 yn Gadeirydd a Lowri Jones Bl.10 yn ysgrifenyddes. Mae'r ddau wedi bod yn ddiwyd yn helpu Mrs. Lyn Parry Hughes, sydd â chyfrifoldeb pontio Cynradd-Uwchradd. Bu'r ddau yn ymweld ag ysgolion cynradd y dalgylch cyn gwyliau'r Nadolig ac roedd yr adborth i'w hymdrechion yn hynod bositif. Ymunodd rhai o ddisgyblion o Flwyddyn 7 hefo nhw hefyd, er mwyn iddyn nhw gael sôn am eu profiadau yn ystod eu tymor cyntaf yn Ysgol Eifionydd. Pwnc arall sydd wedi cael sylw gan y Cyngor Ysgol yw y cinio ysgol. Penderfynwyd y dylid creu holiadur a'i roi ar Hwb+ er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi eu barn.

Rhai o ddisgyblion gwersi BAC Blwyddyn 10 Ysgol Eifionydd, yn dilyn cyflwyniad diddorol a gwybodus gan Mr. a Mrs. Swain, ymgyrchwyr codi ymwybyddiaeth elusen 'Shelter Box' ar un dull llwyddiannus dyngarol byd eang, a gyflwynwyd yn Sylfaen i waith Dinasyddiaeth y myfyrwyr.



**Staff**
Llongyfarchiadau i Mr. Dewi Bowen ar gael ei benodi fel Pennaeth Ysgol Eifionydd. Llongyfarchiadau mawr i Miss Sioned Williams a'i phartner Cai ar enedigaeth merch, Enfys Orion Erith a croeso i Mr. Dafydd Roberts sydd yma dros gyfnod absenoldeb mamolaeth Miss Williams. Pob lwc i Mr. Gwyn Owen sydd wedi dechrau ar ei swydd newydd fel darlithydd ym Mhrifysgol Bangor ac i Miss Iola Parry sydd wedi dechrau swydd newydd fel Swyddog Cynhwysiad. Braf i'w croesawu Miss Llio Dudley yn ôl i'r ysgol. Mae Miss Dudley yn gyn-ddisgybl ac wedi dechrau ar ei dyletswyddau fel Uwch Gymhorthydd Cefnogaeth Dysgu. Dymuniadau gorau iddi.



**Cystadleuaeth Presenoldeb**
Fore Mawrth, Mawrth 8fed, gyda Neuadd yr ysgol dan ei sang ar gyfer gwasanaeth llawn cyhoeddwyd enillydd y gystadleuaeth Presenoldeb eleni. Roedd enwau pob disgybl sydd wedi llwyddo i gael canran presenoldeb o dros 98% yn yr het a gyda siawns o ennill i-pad. Yr enillydd lwcus oedd Josh Gallimore, Bl.8. Llongyfarchiadau mawr iddo a gobeithio y bydd Josh yn cael oriau o fudd a mwynhad o'i wobr.

**FForwm Rhieni**: Sefydlwyd Fforwm Rhieni sydd yn cyfarfod unwaith y tymor. Bwriad y fforwm yw rhoi cyfle i rieni fynegi barn am faterion yn ymwneud â'r ysgol. Mae'r fforwm wedi cyfarfod a llwyddwyd i gael trafodaeth adeiladol iawn. Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 20/04/2016 am 6.30 y.h.

# Min y Traeth Spring 2016

## Ysgol Eifionydd Parents' Bulletin www.ysgoleifionydd.org

Issue : 3

Ymlaen
Ysgol Eifionydd
Porthmadog

*A few words from the Headteacher* 'Forward' is the motto of the school and, as head of Ysgol Eifionydd, I look forward to continuing to work closely with teachers, support staff, parents and pupils. The school is already a success, but I think together we can further develop as a creative school that prepares our students for the twenty-first century. The Welsh Language is close to my heart and, in my opinion the bilingual ethos of the school has led to the full development of our children's intelligence as well as supporting the culture and traditions of our community. The aim will be to help our children reach the highest standards in a happy school, inclusive and civilized. I thank the Governors for the privilege of continuing to lead the school.

### Important Dates

- **Easter – 25 March – 8 April**
- **Year 9 Options Evening – 15/03/16**
- **Year 7 Parents Evening 22/03/16**



**Meirion-Dwyfor Cross Country**
Meirion-Dwyfor Cross country competitions were held in Dolgellau recently. Congratulations to everyone who took part.

**Excellent results in Mathematics.**
On behalf of the school I would like to congratulate Year 11 on their excellent results in Mathematics with almost 30% of the year achieving grades A/A*. Good luck with the rest of the exams in May.

**Non-uniform day**
On the last day before half term holidays the pupils were able to attend school wearing their own clothes, rather than the usual uniform. It was great to see the pupils looking so colourful and fundraising at the same time. They collected £310.95 – Well done.

**Taster Day**
Year 11 spent a day at Glasdir Business and Conference Centre recently. The day was organized by Cardiff University to raise awareness about the health courses they offer there. The day was extremely beneficial and the pupils were able to learn more about possible careers such as nursing, radiography and midwifery. Thanks to Mr. Roger Vaughan for organizing the trip and accompanying the pupils there.



**Urdd Eisteddfod** – The County Eisteddfod was held on Satuday, 5th of March in Llanrug. Congratulations to those who took part and to those who were successful. Good luck to the winners as they represent Snowdonia in the Urdd Eisteddfod in Flint during the Whitsun holidays.

**Lori Ni**
Once again Lori Ni visited the school. Year 9 pupils were given the opportunity to visit the lorry in small groups. Lori Ni offers information and advice to young people on a wide range of important and relevant topics.




Some Year 10 Ysgol Eifionydd BAC pupils, following an interesting and informative presentation by Mr. and Mrs. Swain, awareness campaigners for the charity 'Shelter Box', one of many successful global humanitarian schemes brought to the students attention as part of their Global Citizen programme.

**School Council** – The School Council has been busy of late meeting on a weekly basis. Ifan Price (Year 10) was voted as chairman and Lowri Jones (Year 10) as Secretary. Both of them have been helping Mrs. Lyn Parry Hughes who has responsibility for the transition between primary and secondary schools. Both pupils visited the catchment area primary schools before Christmas and the feedback received for their efforts was positive. A few pupils from year 7 also attended so that they could recount their experiences during their first term here at Ysgol Eifionydd.





**Staff**
Congratulations to Mr. Dewi Bowen on his appointment as Head teacher of Ysgol Eifionydd. Congratulations to Miss Sioned Williams and her partner Cai on the birth of their daughter, Enfys Orion Erith and a warm welcome is given to Mr. Dafydd Roberts who will be here during Miss Williams's maternity leave. We wish Mr. Gwyn Owen the very best of luck in his new job as a lecturer in Bangor University and to Miss Iola Parry in her new job as Inclusion officer. It is nice to welcome Miss Llio Dudley back to the school. Miss Dudley is a former pupil and has begun her duties as a Higher Level Teaching Assistant.

**Attendance Competition**
On Tuesday morning, March 8th, with the school hall packed for the morning assembly, the winner of this year's Attendance Competition was announced. The names of all pupils who have a high attendance rate of over 98% was put in a hat with a chance of winning an i-pad. The lucky winner was Josh Gallimore, Year 8. Congratulations to him and we hope he will have hours of benefit and enjoyment from his prize.

**Parents' Forum**: the Forum has been established and will meet once a term. The forum will give parents the opportunity to express their opinions relating to school matters. Its first meeting was very successful and constructive. The next meeting will be on the 20/04/2016 at 6.30 p.m.